



At: Aelodau Cyngor Ymgynghorol
Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad: Dydd Iau, 24 Ionawr
2013

Deialu 01824 712568
Union:

e-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD GWENER, 1 CHWEFROR 2013** yn **SIAMBR Y CYNGOR, Ffordd Llys Nant, Prestatyn.**

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN YMA O'R CYFARFOD

ADLEWYRCHIAD TAWEL

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN BUDDIANNAU

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYN YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid eu hystyried yn y cyfarfod, ym marn y Cadeirydd, fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar Hydref 5^{ed}, 2012 (copi'n amgaeedig) ac i ystyried unrhyw faterion yn codi.

5 GWASANAETHAU RHANBARTHOL GWELLA AC EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION (RSEIS)

I dderbyn cyflwyniad llafar gan Elwyn Davies, Prif Swyddog (RSEIS).

6 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU ARCHWILIO

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol (copi'n amgaeedig) yn dadansoddi canlyniadau Adroddiadau Archwiliad Estyn yn ddiweddar o ddwy ysgol ym mis Hydref 2012.

7 CANLYNIADAU ARHOLIAD 2012

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol (copi'n amgaeedig) yn dadansoddi canlyniadau arholiadau 2012.

8 SICRHAU ASESAD ATHRO YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 3

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol (copi'n amgaeedig) yn dadansoddi'r canlyniadau o'r broses safoni.

9 TREFNIADAU YN Y DYFODOL AR GYFER MONITRO ADDYSG GREFYDDOL MEWN YSGOLION

I ystyried adroddiad llafar gan yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol ac Aelodau i drafod monitro Addysg Grefyddol mewn ysgolion.

10 CYMDEITHAS CYMRU'R CYSAG

I dderbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 26^{ain} Mehefin a Dachwedd 23^{ain} 2012 (copi'n amgaeedig).

11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

RHAN 2 – DIM EITEMAU

AELODAETH

Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Bill Tasker
Carys Guy-Davies
Julian Thompson-Hill
Dewi Owens

Alice Jones
Margaret McCarroll
Arwel Roberts
Joe Welch

Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

Mr. Dominic Oakes
Y Parch. B H Jones
Y Parch. Martin Evans-Jones
Mary Ludenbach

Mrs C Thomas
Mrs E Wright
S Harris
Is-Gapten Sian Radford

Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon

Ms M Bradshaw
Mrs C Harmsworth

Mrs Maureen Phillips

Aelodau Cyfetholedig

T. Ap Siôn
Mr G Craigen

Mrs M B Lloyd

COPIAU AT:

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gyhaliwyd yn The Council Chamber, County Hall, Ruthin, Dydd Gwener, 5 Hydref 2012 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill, Dewi Owens a/ac Joe Welch

Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol

Mr. Dominic Oakes, Y Parch. Martin Evans-Jones a/ac S Harris

Yn Cynrychioli Cymdeithasau Athrawon

Mrs C Harmsworth a/ac Mrs Maureen Phillips

Aelodau Cyfetholedig

Mr G Craigen

HEFYD YN BRESENNOL

Uwch Ymgynghorydd dysgu AG (PL), a Chlerc CYSAG (SLW)

YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Y Cynghorydd Bill Tasker, Y Cynghorydd Carys Guy-Davies, Mary J Ludenbach, Ms Maxine Bradshaw, Mrs Mairwenna B Lloyd, Y Cynghorydd Alice Jones a/ac Y Cynghorydd Margaret McCarroll

Cytunodd Sylvia Harris i weithredu fel Cadeirydd gan nad oedd Maxine Bradshaw yn gallu bod yn y cyfarfod a chan nad oedd yna safle is-gadeirydd.

ADLEWYRCHIAD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o adlewyrchu tawel.

Darllenodd y Cadeirydd lythyr a dderbyniwyd gan yr Aelod Cyfetholedig, Mairwenna Lloyd. Roedd wedi ymddiswyddo yn ôl cyngor ei Doctoriaid oherwydd salwch. Mynegodd y Cadeirydd ei thristwch o dderbyn ymddiswyddiad Aelod mor ymroddedig o'r Pwyllgor gan y bu Mairwenna'n aelod mor amlwg o CYSAG am flynyddoedd lawer. Roedd y Pwyllgor am i'w dymuniadau gorau gael eu cyfleu i Mairwenna. Yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol i ysgrifennu at Mairwenna ar ran CYSAG.

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O FUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na niweidiol.

3 MATERION BRYG YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnodd yr Uwch Gyngorydd Dysgu AG (UGD:AG) am enwebiadau ar gyfer swydd is-gadeirydd. Roedd yn ofynnol i'r enwebai fod yn gynrychiolwyr enwad crefyddol gan fod y Cadeirydd, Maxine Bradshaw, yn gynrychiolydd o Gymdeithas yr Athrawon.

Fe enwebwyd ac fe eiliwyd y Parch. Martin Evans-Jones yn is-gadeirydd.

PENDERFYNWYD penodi'r Parch. Martin Evans-Jones yn is-gadeirydd CYSAG.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar Fehefin 29^{ain}, 2012 (a ddsbarthwyd yn flaenorol).

Cywirdeb –

Tudalen 8 – dylai ddarllen “Fe aeth oddeutu 450 o ddisgyblion...” nid “150”.

Tudalen 9, Eitem 9 – dylai ddarllen Ysgol Esgob Morgan ac nid Ysgol Morgan.

Materion yn Codi – Dim.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar Fehefin 29^{ain} 2012 yn gofnod cywir, yn amodol ar yr uchod.

6 CYFLWYNIAD GAN GYMDEITHAS DYNEIDDWYR PRYDAIN

Adroddodd yr Uwch Gyngorydd Dysgu AG (UGD:AG) bod Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain wedi ei gwahodd i'r cyfarfod i roi cyflwyniad â'r teitl “Sut y gall Cymdeithas y Dyneiddwyr gynorthwyo gwaith CYSAG” ond, hyd yma, ni chafwyd unrhyw ymateb. Cadarnhaodd yr UGD:AG y byddid yn ail-drefnu'r eitem ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD gwahodd Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain i gyfarfod CYSAG yn y dyfodol.

7 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU ARCHWILIO

Cyflwynodd yr UGD:AG Ddadansoddiad o'r Adroddiad Archwilio (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Roedd pedair ysgol wedi cael Archwiliad Estyn yn haf 2012, sef:

- Ysgol Hiraddug, Dyserth
- Ysgol Y Faenol, Bodelwyddan
- Ysgol Uwchradd Dinbych
- Ysgol Dinas Brân, Llangollen.

Codwyd y mater, o fewn yr adran brofiadau dysgu, fod Ysgol Y Faenol yn llai effeithiol yn hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang. Cadarnhaodd yr UGD:AG y byddai'n cysylltu ag Ysgol y Faenol i drafod pa gymorth y gellid ei roi i gynorthwyo â'r mater yma.

Rhodddwyd awgrym y gellid rhoi gwahoddiad i Swyddog Gwella Ysgolion Ysgol y Faenol ddod i gyfarfod CYSAG yn y dyfodol i gael diweddariad. Cytunwyd i hyn.

Codwyd mater pellach ynglŷn ag Ysgol Dinas Brân gan ei fod wedi ei ddatgan o fewn yr adroddiad nad oedd y rhan fwyaf o wersi tiwtor dosbarth a chynulladau yn cyfarfod â'r gofyniad statudol ar gyfer y weithred ddyddiol o addoli cyfunol. Esboniodd yr UGD:AG ei fod wedi ymweld ag Ysgol Dinas Bran a byddai'n mynd i gyfarfod y Gymuned Dysgu Proffesiynol nesaf i drafod sut y gellid unioni hyn ar gyfer y dyfodol. Yn anffodus, roedd yr un broblem wedi ei hadrodd yn dilyn archwiliad blaenorol Estyn. Yn dilyn yr adroddiad blaenorol, roedd swm mawr o waith wedi ei wneud efo'r ysgol ond roedd cynnal cysondeb dros nifer o flynyddoedd wedi bod yn anodd.

PENDERFYNWYD :-

- *derbyn a nodi'r adroddiad;*
- *bod llythyr i'w anfon at bob un o'r pedair ysgol yn eu hysbysu bod eu Hadroddiad Archwilio wedi ei ystyried, eu llongyfarch am y nodweddion da a nodwyd ac yn eu hatgoffa o wasanaethau'r Uwch Gynghorydd Dysgu AG a Swyddogion Gwella Ysgolion o ran unrhyw feysydd sydd i'w datblygu neu faterion allweddol sydd angen delio â nhw;*
- *i ofyn i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu llythyrau i'r ysgolion dan sylw.*
- *I wahodd Swyddog Gwella Ysgolion Ysgol y Faenol i gyfarfod CYSAG yn y dyfodol i gael diweddariad ynglŷn ag hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang.*

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL DDRAFFT CYSAG 2011-12

Cyflwynodd yr Uwch Gyngorydd Dysgu AG (UGD:AG) yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Adroddodd UGD:AG ei bod yn ofyniad statudol i CYSAG gynhyrchu Adroddiad Blynyddol o'i waith, ac roedd yr Adroddiad Blynyddol i'w roi ar gael i'r Adran Addysg a Sgiliau cyn Rhagfyr 31^{ain} 2012. Mae'n rhaid i aelodau ystyried mai'r adroddiad drafft i law oedd ar gyfer 2011-2012 ac nid y flwyddyn gyfredol. Gofynnodd yr UGD:AG am i'r adroddiad blynyddol gael ei wirio o ran cywirdeb. Y diwygiadau a oedd yn ofynnol oedd y canlynol:-

- Tudalen 22 3bii – dylai hyn ddarllen “AdAS” nid APADGOS
- Tudalen 24 APADGOS i'w ddiwygio i AdAS.
- Tudalen 25 – ar waelod y dudalen roedd yna ddyblygu %.
- Tudalen 26 - Dylai'r ail linell o'r top ddarllen “mwyafrif y disgyblion yn derbyn.....” dileu'r gair “i”.
- Tudalen 31 – 3 b) ii) dylai hyn ddarllen AdAS nid APADGOS.
- Tudalen 32 - Cynrychioli Enwadau Crefyddol - mae Methodistiaid â “Heulwen Ellis” fel yr aelod ond dylai ddarllen “Y Parch. Martin Evans-Jones” gan iddo gymryd drosodd gan Heulwen oddeutu 2 flynedd ynghynt. Cadarnhaodd yr UGD:AG y byddai'n gwirio hyn.

Codwyd y mater ynglŷn â nifer y seddi aelodaeth gwag. Dywedodd UGD:AG y bu yna anawsterau gyda chymryd y lleoedd aelodaeth. Awgrymwyd y gellid cysylltu â Vicky Barlow, Prifathro newydd Ysgol Santes Ffraid, Dinbych i fod yn aelod o CYSAG a hefyd Isobel Barros-Curtis, Prifathro Ysgol Plas Brondyffryn, Dinbych ar ran y Cymdeithasau Athrawon.

PENDERFYNWYD :

- *cymeradwyo'r adroddiad yn amodol ar yr uchod*
- *gofyn i'r Awdurdod Lleol drefnu i gyfieithu'r adroddiad i'r Gymraeg, ei brintio a'i ddosbarthu i bob ysgol a choleg yn Sir Ddinbych, a phob derbynydd arall fel sy'n ofynnol yn ôl y Gyfraith ac fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad*
- *i wahodd Prifathro Ysgol y Santes Ffraid, Dinbych a hefyd Prifathro Ysgol Plas Brondyffryn, Dinbych, i ddod yn aelodau CYSAG ar ran y Cymdeithasau Athrawon.*

9 CCYSAGAUC

Fe ymddiheurodd yr Uwch Gyngorydd Dysgu AG i aelodau CYSAG am nad oedd cofnodion cyfarfod blaenorol CCYSAGauC wedi eu derbyn hyd yma, ond fe fydden nhw ar gael yng nghyfarfod nesaf CYSAG.

Rhoddodd yr UGD:AG adroddiad llafar. Cynhaliwyd y CYSAGauC blaenorol yng Nghanolfan Busnes Conwy. Rhoddodd Lesley Frances o Ganolfan y Santes Fair gyflwyniad. Roedd y Santes Fair wedi gwneud prosiect ar ddigwyddiad y Gadeirlan a gynhaliwyd y Nadolig diwethaf ac wedi nodi adborth gan ddisgyblion am eu profiad yn y Gadeirlan. Dangoswyd fod y digwyddiad yma wedi cael effaith positif ar y rheiny a oedd wedi bod yn bresennol yn enwedig ynglŷn â chrefydd Nadolig.

Yn ei gyflwyniad roedd gan Lesley dystiolaeth gadarn yn dangos cymaint yr oedd AG yn gwella safonau mewn ysgolion. Roedd yna rai pobl a oedd â diddordeb gwirioneddol a phryder ynglŷn ag AG yn symud ymlaen ac yr oedd yn gam positif fod AG yn cael ei gynghori gan unigolion mor wybodus. Dywedodd yr UGD:AG fod y cyflwyniad yn un eithriadol bositif.

PENDERFYNWYD *derbyn y cyflwyniad llafar.*

10 LLYTHRENNEDD/RHIFEDD O FEWN CYSTADLEUAETH AG I YSGOLION

Rhoddodd yr UGD:AG adroddiad llafar yn hysbysu Aelodau o Lythrennedd/Rhifedd o fewn cystadleuaeth AG i ysgolion.

Dywedodd yr UGD:AG wrth y Pwyllgor y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf i ddileu dyddiad cau'r gystadleuaeth llythrennedd a rhifedd tan ddiwedd y tymor yma. Roedd hynny oherwydd mai dim ond un cais a dderbyniwyd cyn hynny. Cytunwyd y byddid yn dod â'r 5 cais uchaf i'r cyfarfod nesaf. UGD:AG i anfon e-bost at athrawon yn eu hannog i anfon cais i mewn.

Crybwyllwyd, yn hytrach na chael cystadleuaeth, y gellid ei hyrwyddo o fewn model gwahanol e.e. ymarfer rhannu. Cadarnhaodd yr UGD:AG y rhoddwyd cynnig ar hyn yn y gorffennol. Gobeithiwyd y byddai'r symbyliad o £200 o wobwr yn annog mwy o geisiadau.

Cadarnhaodd UGD:AG y byddai'n gwirio hefyd a oedd e-byst a anfonwyd i ysgolion yn cael eu dargyfeirio i'r Adrannau perthnasol.

PENDERFYNWYD *bod yr UGD:AG i hysbysu ysgolion o'r gystadleuaeth.*

11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar ddydd Gwener, Chwefror 1^{af} 2013 am 10.00 a.m. Lleoliad – Siambr y Cyngor, Ffordd Plas Nant, Prestatyn.

Wrth gau'r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Cyngor Sir Ddinbych		
Dyddiad y Cyfarfod:		01 Chwefror 2013
Eitem ar yr Agenda:	5	Manylion yr Adroddiad
<p style="text-align: center;"><u>Cefndir i'r Adroddiad:</u></p> <p>Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd Ysgolion a Gwella Ysgolion (RSEIS) Gwasanaeth newydd a ffurfiwyd sy'n gweithio gydag ysgolion ledled Awdurdodau Addysg Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam</p>		
<p style="text-align: center;"><u>Diben yr Adroddiad:</u></p> <p>I'r aelodau gael cyflwyniad gan Elwyn Davies, Prif Swyddog, RSEIS, yn amlinellu'r gwasanaeth a gynigir i ysgolion o 1 Ebrill 2013 ymlaen.</p>		
<p style="text-align: center;"><u>Argymhellion:</u></p> <ul style="list-style-type: none">▪ Cael y cyflwyniad llafar		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Cyngor Sir Ddinbych		
Dyddiad y Cyfarfod:		01 Chwefror 2013
Eitem ar yr Agenda:	6	Manylion yr Adroddiad
<u>Cefndir i'r Adroddiad:</u>		
<p>Mae gan CYSAG ddyletswydd statudol i fonitro'r ddarpariaeth AG ac addoli ar y cyd yn yr ysgolion, ac ers tro bu'n cael ac yn dadansoddi adroddiadau Arolygiad Estyn ym mhob cyfarfod.</p>		
<u>Diben yr Adroddiad:</u>		
<p>Rhoi gwybod i'r aelodau am ganlyniadau Adroddiadau Arolygiad Estyn diweddar am ysgolion.</p>		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none">▪ Cael yr adroddiad▪ Anfon llythyr i bob un o'r ysgolion yn rhoi gwybod iddynt fod eu Hadroddiad Arolygiad wedi'i ystyried, yn eu llongyfarch am nodweddion da a nodwyd, ac yn eu hatgoffa o wasanaethau'r Uwch Gynghorwr Dysgu AG a'r Swyddogion Gwella Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw feysydd i'w datblygu neu faterion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy.▪ Gofyn bod yr AALL yn dosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion dan sylw		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygiad CYSAG Sir Ddinbych

1 Chwefror 2013

Arolygwyd dan Fframwaith newydd Estyn

Ysgol	Dyddiadau	Arolygydd Adrodd
Y Bendigaidd Edward Jones	Hydref 2012	Ray Owen
<i>Ysgol wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaidd Edward Jones. Mae 36% o'r disgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim. Mae gan 3% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i 12% o'r disgyblion ac mae gan yr ysgol ddisgyblion o 15 gwahanol genedligrwydd heblaw Prydeinig. Mae tua 53% o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.</i>		
Ysgol Clocaenog	Hydref 2012	Mervyn Jones
<i>Ysgol wledig fach yw Ysgol Clocaenog. Nid yw'r ardal a wasanaetha'n ffyniannus nac o dan anfantaes economaidd. Mae 4% o'r disgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim. Cofnodwyd bod 15% o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae 36 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr. Darperir addysg cyfrwng Cymraeg i'r holl ddisgyblion, ond Saesneg yw'r brif iaith gartref i bron 75% o'r disgyblion.</i>		

ARGYMHELLION:

- Cydlynu'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn well. (Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaidd Edward Jones)

SYLWADAU CADARNHAOL

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r Canlyniadau?

Lles:

- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos eu bod yn datblygu sgiliau bywyd a chymdeithasol priodol drwy brofiadau dysgu perthnasol sy'n aml yn cynnwys y disgyblion yn gweithio yn y gymuned leol. (Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaidd Edward Jones)
- Mae sgiliau personol, cymdeithasol a bywyd y disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus ac maent yn eu paratoi'n briodol iawn at gyfnod nesaf eu haddysg. (Ysgol Clocaenog)

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Profiadau dysgu:

- Mae darpariaeth addas i lawer o agweddau ar addysg bersonol a chymdeithasol. (Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaidd Edward Jones)
- Hyrwyddir dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol mewn gwersi, cyfnodau dosbarth a gwasanaethau ysgol. (Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaidd Edward Jones)
- Mae gan yr ysgol gwricwlwm cynhwysfawr sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. (Ysgol Clocaenog)

- Un nodwedd arbennig yw'r ymweliadau â'r canolfannau lleol, sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion am eu cymuned a phwysigrwydd eu cyfraniad ati. (*Ysgol Clocaenog*)
- Mae dealltwriaeth y disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang yn datblygu o hyd drwy weithgareddau masnach a chysylltiadau â Kenya. (*Ysgol Clocaenog*)

Gofal, cymorth ac arweiniad:

- Mae cwricwlwm ac ethos yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn dda. (*Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones*)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn gynhwysfawr, ac mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol y disgyblion yn effeithiol. Mae gwasanaethau'r bore'n sicrhau cyfle rheolaidd i'r disgyblion fyfyrion ynghylch y neges a gyflëir. (*Ysgol Clocaenog*)

Amgylchedd Dysgu:

- Mae ethos Catholig cadarnhaol yn amlwg i ymwelwyr cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd adeilad yr ysgol. Mae'r ethos hwn yn amlwg yn effeithio ar agweddau a gwerthoedd y disgyblion. (*Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones*)
- Mae'n amlwg bod parch at ei gilydd rhwng y staff, y disgyblion ac ymwelwyr â'r ysgol. (*Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones*)
- Ceir ethos hapus a chyfeillgar yn yr ysgol. Un o'r nodweddion amlwg yw'r naws teuluol sy'n seiliedig ar weithredu polisïau sy'n parchu pob unigolyn yng nghymuned yr ysgol. (*Ysgol Clocaenog*)
- Hyrwyddir parch at gydraddoldeb ac amrywiaeth hiliol drwy waith amrywiol yn astudio gwledydd tramor, yn enwedig drwy gyswllt llwyddiannus ag ysgol yng ngwlad Kenya. (*Ysgol Clocaenog*)

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arwain a'r rheoli?

Arwain:

- Mae'r arweinwyr bugeiliol yn gweithio'n dda, yn arbennig mewn perthynas â gwella lles y disgyblion. (*Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones*)

Gwaith partneriaeth:

- Mae cysylltiadau cryfion â'r gymuned leol sydd wedi'u sefydlu ers tro, yn enwedig â'r gymuned a'r eglwys Gatholig leol. (*Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones*)
- Mae'r ysgol yn cefnogi elusennau priodol sy'n effeithiol yn hybu ymwybyddiaeth y disgyblion am anghenion pobl lai ffodus. (*Ysgol Clocaenog*)

SYLWADAU NEGYDDOL

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Profiadau Dysgu:

- Nid yw'r rhaglen gyffredinol wedi'i chydlynu'n dda. (*Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones*)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Cyngor Sir Ddinbych		
Dyddiad y Cyfarfod:		01 Chwefror 2013
Eitem ar yr Agenda:	7	Manylion yr Adroddiad
<u>Cefndir i'r Adroddiad:</u>		
<p>Mae'r adroddiad yn cynnwys canlyniadau manwl arholiadau TGAU a Safon Uwch o ran Astudiaethau Crefyddol ar gyfer y flwyddyn 2011 a 2012, ynghyd â dadansoddiad o'r gwahaniaethau a'r tueddiadau.</p>		
<u>Diben yr Adroddiad:</u>		
<p>Bod yr aelodau'n gallu arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'u dyletswydd statudol i fonitro'r ddarpariaeth AG mewn ysgolion, a chael gwybod yn llawn am y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn.</p>		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none">▪ Cael yr adroddiad.▪ Ystyried unrhyw gamau pellach a all fod yn ofynnol		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Ysgolion Sir Ddinbych Tabl 1
Denbighshire Schools – Table 1

CANLYNIADAU TAGAU 2011: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
GCSE RESULTS 2011: ALL – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm /Totals</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	18	1	5.6	2	11.1	4	22.2	7	38.9	1	5.6	1	5.6	1	5.6	1	5.6	0	0.0	77.8	100
Glan Clwyd	11	1	9.1	4	36.4	1	9.1	3	27.3	2	18.2	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	81.8	100
Prestatyn	233	50	21.5	68	29.2	61	26.2	30	12.9	10	4.3	4	1.7	4	1.7	6	2.6	0	0.0	89.7	100
Dinas Bran	47	3	6.4	5	10.6	17	36.2	16	34.1	1	2.1	1	2.1	2	4.3	2	4.3	0	0.0	87.2	100
Brynhyfryd	23	11	47.8	6	26.1	3	13.0	0	0.0	2	8.7	0	0.0	0	0.0	1	4.4	0	0.0	86.9	100
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	18	0	0.0	0	0.0	5	27.8	11	61.1	2	11.1	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	88.9	100
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	62	3	4.8	3	4.8	17	27.4	10	16.1	9	14.5	6	9.7	5	8.1	9	14.5	0	0.0	53.2	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	52	15	28.8	16	30.8	17	32.7	4	77.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Cyfanswm AAL/ LEA Totals</i>	464	84	18.11	104	22.4	125	26.9	81	17.5	27	5.8	12	2.6	12	2.6	19	4.1	0	0.0	84.9	100
<i>Holl Cymru All Wales</i>	9727	1333	13.7	1838	18.9	2130	21.9	1790	18.4	1138	11.7	642	6.6	457	4.7	272	2.8	126	1.3	72.9	98.7

Tudalen 21

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 4
Denbighshire Schools – Table 4

CANLYDIADAU TGAU 2011 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR
GCSE RESULTS 2011: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

<i>Ysgolion/ Schools</i>	<i>Cyfanswm/ Totals</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	103	0	0.0	1	1.0	5	4.8	24	23.3	21	20.4	20	19.4	25	24.3	7	6.8	0	0.0	29.1	100
<i>Glan Clwyd</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Prestatyn</i>	45	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	2.2	1	2.2	10	22.2	8	17.8	19	42.2	6	13.3	2.2	86.6
<i>Dinas Bran</i>	79	0	0.0	1	1.3	9	11.4	13	16.4	27	34.2	19	24.1	7	8.9	3	3.8	0	0.0	29.1	100
<i>Brynhyfryd</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	121	1	.8	1	.8	7	5.79	17	14.0	24	19.8	29	24.0	21	17.4	15	12.4	6	4.9	21.5	95.1
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	6	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	3	50.0	2	33.3	1	16.7	0	0.0	0	0.0	0.0	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	2	0	0.0	0	0.0	1	50.0	1	50.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	356	1	0.3	3	0.8	22	6.2	56	15.7	76	21.3	80	22.5	62	17.4	44	12.3	12	3.4	23.0	96.5
<i>Holl Cymru All Wales</i>	18318	1722	9.4	2253	12.3	3096	16.9	3554	19.4	2638	14.4	2125	11.6	1612	8.8	952	5.2	366	2.0	58.0	98.0

Tudalen 22

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 7 – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2011 – PAWB ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
Denbighshire Schools – Table 7 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2011: ALL – RELIGIOUS STUDIES

Ysgolion Schools	Cyfanswm Totals	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	U	%	% A* - C	% A* - E
<i>Dinbych</i> Denbigh	11	0	0.0	2	18.2	1	9.1	2	18.2	4	36.4	1	9.1	1	9.1	45.4	100
Glan Clwyd	3	0	0.0	2	66.6	1	33.3	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
Prestatyn	37	0	0.0	4	10.8	7	18.9	13	35.1	10	27.0	3	8.1	0	0.0	64.8	100
Dinas Bran	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
Brynhyfryd	4	0	0.0	1	25.0	2	50.0	1	25.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Santes Ffraid</i> St Brigids	12	1	8.3	3	25.0	6	50.0	2	16.7	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	67	1	1.5	12	17.9	17	25.3	18	26.9	14	20.9	4	5.9	1	1.5	71.6	98.4
<i>Holl Cymru All Wales</i>	1489	52	3.5	253	17.0	469	31.5	387	26.0	214	14.4	83	5.6	30	2.0	78.0	98.0

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Ysgolion Sir Ddinbych Tabl 1
Denbighshire Schools – Table 1

CANLYNIADAU TAGAU 2012: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
GCSE RESULTS 2012: ALL – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm/Totals</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	21	0	0.0	3	14.0	6	29.0	6	29.0	2	10.0	2	10.0	1	5.0	1	5.0	0	0.0	72.0	100
Glan Clwyd	5	0	0.0	2	40.0	2	40.0	1	20.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
Prestatyn	240	24	10.0	58	24.0	72	30.0	48	20.0	17	7.0	9	4.0	7	3.0	5	2.0	0	0.0	84.2	100
Dinas Bran	48	4	8.0	8	17.0	9	19.0	13	27.0	8	17.0	3	6.0	3	6.0	0	0.0	0	0.0	70.8	100
Brynhyfryd	34	14	41.0	12	35.0	6	18.0	0	0.0	0	0.0	2	6.0	0	0	0	0.0	0	0.0	94.0	100
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	59	2	3.4	7	11.9	16	27.1	25	42.4	8	13.6	0	0.0	1	1.7	0	0.0	0	0.0	84.7	100
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	54	0	0.0	9	17.0	14	26.0	16	30.0	6	11.0	5	9.0	4	7.0	0	0.0	0	0.0	72.2	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	54	26	48.0	12	22.0	13	24.0	2	4.0	0	0.0	1	2.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	98.1	100
<i>Cyfanswm AAL/ LEA Totals</i>	515	70	13.6	111	21.5	138	26.8	111	21.5	41	8.0	22	4.3	16	3.1	6	0.2	0	0.0	83.5	100
<i>Holl Cymru All Wales</i>	10409	1551	14.9	2040	19.6	2238	21.5	1832	17.6	1145	11.0	760	7.3	427	4.1	250	2.4	166	1.6	73.6	98.4

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 4
Denbighshire Schools – Table 4

CANLYDIADAU TGAU 2012 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR
GCSE RESULTS 2012: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

Tudalen 26

<i>Ysgolion/ Schools</i>	<i>Cyfanswm/ Totals</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	99	0	0.0	3	3.0	13	13.0	16	16.0	20	20.0	18	18.0	10	10.0	13	13.0	6	0.0	32.3	100
<i>Glan Clwyd</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Prestatyn</i>	27	0	0.0	0	0.0	0	0.0	2	7.0	0	0.0	3	7.0	8	30.0	14	52.0	0	0.0	7.0	100
<i>Dinas Bran</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Brynhyfryd</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	84	0	0.0	0	0.0	2	2.0	15	18.0	19	23.0	17	20.0	19	23.0	3	4.0	9	7.0	20.2	89.3
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	10	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	2	20.0	6	60.0	1	10.0	1	10.0	0	0.0	0.0	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	220	0	0.0	3	1.4	15	6.8	33	15.0	41	18.6	44	20.0	38	17.3	31	14.1	15	6.8	23.6	93.2
<i>Holl Cymru All Wales</i>	19182	1650	8.6	2570	13.4	3606	18.8	3549	18.5	2705	14.1	2129	11.1	1458	7.6	978	5.1	537	2.8	59.3	97.2

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 7 – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2012 – PAWB ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
Denbighshire Schools – Table 7 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2012: ALL – RELIGIOUS STUDIES

Ysgolion Schools	Cyfanswm Totals	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	U	%	% A* - C	% A* - E
<i>Dinbych</i>																	
Denbigh	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
Glan Clwyd	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
Prestatyn	33	0	0.0	3	9.0	10	30.0	10	30.0	9	27.0	1	3.0	0	0.0	69.0	100
Dinas Bran	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
Brynhyfryd	7	1	14.0	1	14.0	3	43.0	2	29.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Santes Ffraid St Brigids</i>	15	1	7.0	3	20.0	7	47.0	4	27.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	55	2	3.6	7	12.7	20	36.3	16	29.1	9	16.3	1	1.8	0	0.0	81.7	100
<i>Holl Cymru All Wales</i>	1690	50	3.0	299	17.7	568	33.6	443	26.2	223	13.2	78	4.6	29	1.7	80.4	98.3

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Crynodeb o ganlyniadau arholiadau 2011-12
Summary of Examination Results 2011 - 12

I CYSAG Sir Ddinbych Chewfwr 2012 / For Denbighshire SACRE February 2012

Astudiaethau Crefyddol TGAU – Cwrs Llawn / GCSE Religious Studies - Full Course

Yr Holl ymgeiswyr / All candidates:

Ysgol /School	2012 <i>Nifer a safodd yr arholiad/entry</i>	2011 <i>Nifer a safodd yr arholiad/entry</i>	2012 A*-C %	2011 A*-C %	<i>Gwahaniaeth/ Difference %</i>	+/- <i>Cenedlaethol / National 2012</i>
Dinbych/ Denbigh	21	18	71	77.8	-6.8	-2.6
Glan Clwyd	5	11	100	81.8	+18.2	+26.4
Prestatyn	240	233	84	89.7	-5.7	+10.4
Dinas Bran	48	47	71	87.2	-16.2	-2.6
Brynhyfryd	34	23	94	86.9	+7.1	+20.1
Y Rhyl / Rhyl	59	18	85%	88.9	-3.9	+11.4
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	54	62	72	53.2	+18.8	-1.6
Santes Ffraid / St Brigids	54	52	98	100	-2	+24.4
ALI /LA	456	464	84.4	84.9	+1.2	+10.7
Holl Cymru / All Wales	10409	9727	73.6	72.9		

Astudiaethau Crefyddol TGAU – Cwrs Byr / GCSE Religious Studies – Short Course

Yr Holl ymgeiswyr / All candidates:

Ysgol /School	2012 <i>Nifer a safodd yr arholiad/entry</i>	2011 <i>Nifer a safodd yr arholiad/entry</i>	2012 A*-C %	2011 A*-C %	<i>Gwahaniaeth/ Difference %</i>	+/- <i>Cenedlaethol / National 2012</i>
Dinbych/ Denbigh	99	103	32	29.1	2.9	-27.3
Glan Clwyd	0	0	--	--	--	
Prestatyn	27	45	7	2.2	4.8	-52.3
Dinas Bran	0	79	--	29.1	--	
Brynhyfryd	0	0	--	--	--	
Y Rhyl / Rhyl	84	121	20	21.5	-1.5	-39.3
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	10	6	0	--	=	-59.3
Santes Ffraid / St Brigids	0	2	--	100	--	--
ALI /LA	220	356	14.8	38.8	24.0	-44.55
Holl Cymru / All Wales	19182	18318	59.3	58.0		

Astudiaethau Crefyddol TGAU Safon Uwch/ GCE Religious Studies – A - Level

Yr Holl ymgeiswyr / All candidates:

Ysgol /School	2012 Nifer a safodd yr arholiad/ entry	2011 Nifer a safodd yr arholiad/ entry	2012 A*-C %	2011 A*-C %	Gwahaniaeth/ Difference %	+/- Cenedlaethol / National 2012
Dinbych/ Denbigh	0	11	--	45.4	--	--
Glan Clwyd	0	3	--	100	--	--
Prestatyn	33	37	69.0	64.8	+5.2	- 11.4
Dinas Bran	0	0	--	--	--	--
Brynhyfryd	7	4	100	100	=	+ 19.6
Y Rhyl / Rhyl	0	0	--	--	--	--
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	0	0	--	--	--	--
Santes Ffraid / St Brigids	15	12	100	100	=	+ 19.6
ALI /LA	55	67	81.7	71.6	+10.1	+ 1.3
Holl Cymru / All Wales	1690	1487	80.4	78.0		

Cymharu canlyniadau â'r cyfartaledd cenedlaethol / Results Comparison to National Average

<i>Cwrs Llawn / Full Course A* - C</i>								
	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Dinbych/ Denbigh	61.2%	67.9%	42.9%	70.6%	72.7%	67.4	77.8	72.0
Glan Clwyd	54.6%	63.6%	100%	68.8%	91.7%	50.0	81.8	100
Prestatyn	65.4%	81.9%	75.5%	77.3%	89.5%	78.7	89.7	84.2
Dinas Bran	44.4%	72.7%	0.0%	100%	100%	50.0	87.2	70.8
Brynhyfryd	40.0%	66.7%	100%	100%	100%	81.0	86.9	94.0
Y Rhyl / Rhyl	60.0%	0.0%	100%	100%	100%	--	88.9	84.7
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	41.9%	22.4%	39.1%	55.8%	40.7%	52.3	53.2	72.2
Santes Ffraid / St Brigids	95.7%	98.0%	----	97.9%	95.5%	94.5	100	98.1
Nat. Average	70.2%	73.7%	71.1%	72.0%	71.9%	74.3	72.9	73.6
<i>Cwrs Byr / Short Course A* - C</i>								
	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Dinbych/ Denbigh	70.6%	65.9%	51.8%	58.6%	40.8%	26.0	29.1	32.3
Glan Clwyd	N/A	N/A	53.3%	64.7%	84.0%	--	--	--
Prestatyn	20.0%	42.9%	28.6%	14.3%	9.5%	--	2.2	7.0
Dinas Bran	32.9%	28.3%	60.6%	28.3%	80.0%	77.6	29.1	0.0
Brynhyfryd	N/A	N/A	N/A	100%	100%	--	0.0	0.0
Y Rhyl / Rhyl	60.6%	46.8%	23.8%	33.0%	46.6%	19.0	21.5	20.2
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	6.7%	17.4%	6.1%	18.8%	16.7%	--	0.0	0.0
Santes Ffraid / St Brigids	93.6%	98.0%	88.7%	96.2%	96.1%	--	100	--
Nat. Average	58.7%	59.7%	58.8%	59.7%	59.2%	59.7	58.0	59.3

Cymharu canlyniadau â'r cyfartaledd cenedlaethol / Results Comparison to National Average

<i>Safon Uwch / A Level</i>								
	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
<i>Dinbych/ Denbigh</i>	83.3%	66.7%	60.9%	64.3%	83.3%	41.1	45.4	--
<i>Glan Clwyd</i>	N/A	N/A	N/A	75.0%	N/A	--	100	--
<i>Prestatyn</i>	92.0%	64.7%	77.8%	34.6%	82.1%	57.1	64.8	100
<i>Dinas Bran</i>	0.0%	0.0%	100%	N/A	N/A	--	0.0	--
<i>Brynhyfryd</i>	30.0%	20.0%	N/A	100%	83.3%	80.0	100	100
<i>Y Rhyl / Rhyl</i>	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	--	0.0	--
<i>Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones</i>	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	--	0.0	--
<i>Santes Ffraid / St Brigids</i>	33.3%	58.3%	50.0%	100%	100%	83.2	100	100
Nat. Average	65.4%	65.5%	75.9%	75.7%	79.7%	78.5	78.0	98.3

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Cyngor Sir Ddinbych		
Dyddiad y Cyfarfod:		01 Chwefror 2013
Eitem ar yr Agenda:	8	Manylion yr Adroddiad
<u>Cefndir I'r Adroddiad:</u> Canlyniadau sy'n ymwneud â CA3 safoni yn 2011/12		
<u>Diben yr Adroddiad:</u> I ystyried adroddiad yn dadansoddi'r canlyniadau o'r broses safoni.		
<u>Argymhellion:</u> I aelodau I dderbyn y wybodaeth.		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

KEY STAGE 3 TEACHER ASSESSMENT – 2012

ASESIAD ATHRAWON CYFNOD ALLWEDDOL 3 2012

Name of school / Enw'r ysgol	Level/lefel 4	Level/lefel 5	Level/lefel 6	Level/lefel 7
Ysgol Uwchradd Glan Clwyd	I/M	A(l)/C(m)	A/C	A(i)/C(m)
Denbigh High	I/M	I/M	I/M	I/M
St Brigid's	A(i)/C(m)	A(i)/C(m)	A(i)/C(m)	A(i)/C(m)
Prestatyn	I/M	I/M	I/M	I/M
Dinas Bran	I/M	I/M	I/M	I/M

Codes used

- A** Agree fully with department's understanding
- A(i)** Agree sufficiently but with some issues
- I** Issues: unable to agree
- N** No evidence received

Codau a ddefnyddir

- C** Cytuno'n llwyr â dealltwriaeth yr adran
- C(m)** Cytuno'n ddigonol ond gyda rhai materion
- M** Materion: methu cytuno
- N** Ni dderbyniwyd tystiolaeth

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Cyngor Sir Ddinbych		
Dyddiad y Cyfarfod:		01 Chwefror 2013
Eitem ar yr Agenda:	9	Manylion yr Adroddiad
<p style="text-align: center;"><u>Cefndir i'r Adroddiad:</u></p> <p>Trafod trefniadau'r dyfodol o ran monitro AG mewn ysgolion ar y cyd â RSEIS.</p>		
<p style="text-align: center;"><u>Diben yr Adroddiad:</u></p> <p>Agor trafodaeth am effaith RSEIS ar fonitro AG mewn ysgolion.</p>		
<p style="text-align: center;"><u>Argymhellion:</u></p> <p>Bod yr aelodau'n trafod y ffordd orau ymlaen o ran monitro AG mewn ysgolion.</p>		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a))

Cred **CYSAG XXXXX** y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae **CYSAG XXXX** wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae **CYSAG XXXXX** felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod **CYSAG XXXX** ar **ddyddiad**, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw **clerc CYSAG XXXXX yn** ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Manylion cyswllt:

Enw (Clerc CYSAG):

Cyfeiriad:

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

Enw'r Ysgol:

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

Materion i gael sylw

Rhagorol

Da

Digonol

Anfoddhaol

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

Materion i gael sylw

Rhagorol

Da

Digonol

Anfoddhaol

Addoli ar y Cyd

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?	Ydy	Nac ydy
<p>Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)</p>		
<p>Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd</p>		
<p>Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd</p>		
Rhagorol		Da
	Digonol	
Anfoddfaol		

Llofnod: (Pennaeth)

Dyddiad:

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Cyngor Sir Ddinbych		
Dyddiad y Cyfarfod:		01 Chwefror 2013
Eitem ar yr Agenda:	10	Manylion yr Adroddiad
<u>Cefndir i'r Adroddiad:</u>		
